WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr S Smith
Prif Swyddog Tân
Pencadlys Awdurdod Tân ac Achub
Gogledd Cymru
Ffordd Salesbury,
Parc Busnes Llanelwy,
Llanelwy,
Sir Ddinbych.
LL17 0JJ

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 8 Gorffennaf 2011 |
| **Ein cyfeirnod** | 348A2011 |
| **Eich cyfeirnod** | |
| **Rhif Ffôn** | 07970 246775 |
| **E-bost** | Lisa.williams@wao.gov.uk |
| **Tudalen** | **1** o **7** |

Annwyl Mr Smith

**Asesiad Gwella: Yn cynnwys Diweddariad o ran yr Asesiad Corfforaethol**

Fel yr eglurais yn fy llythyr ymgynghori ar Asesiad Gwella eleni rwyf yn cyflawni fy nghyfrifoldebau o dan adran 19 o Fesur Llywodraeth Leol (2009) yn y llythyr hwn i'r Awdurdod. Fel sy'n ofynnol, caiff y llythyr hwn ei anfon at Weinidogion Cymru hefyd.

Yn ystod y flwyddyn drosiannol rhoddwyd blaenoriaeth i sefydlu llinell sylfaen gyffredinol a oedd yn cynnwys barn arolygiaethau a rheoleiddwyr eraill, ac y gallem ei defnyddio i asesu trefniadau gwella mewn modd mwy cywir a chymesur ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Ar ôl sefydlu'r llinell sylfaen honno, ni fydd angen asesiad cynhwysfawr yn y rhan fwyaf o awdurdodau mewn unrhyw flwyddyn benodol. Eleni, mae fy llythyr yn crynhoi:

- cydymffurfiaeth yr Awdurdod â'i rwymedigaethau statudol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus;
- cynnydd yr Awdurdod mewn perthynas â meysydd i'w gwella ac argymhellion a nodwyd yn asesiad 2010;
- sylwebaeth fer ar unrhyw faterion perthnasol a all fod wedi dod i'r amlwg ers fy adroddiad diwethaf, gan gynnwys sylwadau ar sut y mae'r Awdurdod yn mynd i'r afael â heriau ariannol; a
- diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen ar gyfer cyflawni fy ngwaith ar yr Asesiad Gwella.

**Trefniadau'r Awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus**

Mae arweinwyr yr Awdurdod yn parhau i lywio newid a mynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn adroddiad yr Asesiad Corfforaethol ym mis Gorffennaf 2010. Dylai'r blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod sydd i ddod barhau i gynnwys datblygu datrysiadau TGCh priodol i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau a sicrhau bod amcanion gwella yn fesuradwy ac y cyflwynir adroddiadau arnynt.

Mae amcanion gwella'r Awdurdod a'r cynllun gwella (sef 'Cynllun Gwella a Lleihau Risg Cyfunol 2009-2012') yn bodloni gofynion y Mesur Llywodraeth Leol (2009) a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Diwygiwyd y trefniadau cynllunio busnes ar gyfer 2011-12 ac maent yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae'r Awdurdod wrthi'n datblygu'r mesurau a'r prosesau a ddefnyddir ganddo i fonitro Amcanion Gwella 2011-12 a chyflwyno adroddiadau ar sut y'u cyflawnir. Wrth wneud hynny mae angen i'r Awdurdod sicrhau bod yr amcanion gwella yn fesuradwy ac y cyflwynir adroddiadau arnynt fel bod gan y cyhoedd ddealltwriaeth glir o'r hyn a olygant a pha mor dda y mae'r Awdurdod yn eu cyflawni.

Rwy'n fodlon bod yr Awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a bod yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'i ofynion yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Deuthum i'r casgliad hwn am fod fy ngwaith archwilio ac asesu, hyd yma, wedi canfod y canlynol:

- gwneir cynnydd da yn y meysydd i'w gwella a nodwyd yn fy asesiad corfforaethol yn 2010; ac
- mae gan yr Awdurdod ddull cadarn o nodi'r hyn y mae angen iddo ei wneud i ymdopi o fewn y cyfyngiadau ariannol hysbys a bydd mewn sefyllfa well i fynd i'r afael â'i heriau ariannol ar ôl iddo ddatblygu'r trefniadau cynllunio ariannol tymor canolig ymhellach.

**Cynnydd yn y meysydd i'w gwella a nodwyd yn asesiad 2010**

Nododd yr Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2010, fod arweinyddiaeth sefydlog a gwelliannau i lywodraethu corfforaethol yn debygol o gefnogi gwelliant yn y dyfodol. Canfu'r adroddiad nifer o feysydd i'w gwella a nododd hefyd un maes lle y byddem yn gwneud rhagor o waith. Caiff cynnydd mewn perthynas â'r materion hyn ei grynhoi isod a'i ddisgrifio'n fanylach yn Atodiad 1.

- mae gwaith y Clerc a Swyddog Cyswllt yr Aelodau yn sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu rhwng y Pwyllgor Archwilio a'r Panel Gweithredol;
- mae trefniadau cofnodi gwell ar gyfer y System Cofnodi Digwyddiadau (IRS) a'r System Rheoli Cofnodion (RMS) yn golygu bod ystod ehangach o ddata ar gael i reolwyr;

- mae'r Awdurdod wedi adolygu'r prosesau busnes sydd eu hangen arno i helpu i gyflawni prosiectau yn llwyddiannus a gwnaeth nifer o welliannau yn cynnwys strwythur sefydliadol diwygiedig o fis Ebrill 2011; ac
- mae Gweithgor Lleihau Risg yr Awdurdod yn datblygu strategaeth ariannol tymor canolig fwy ffurfiol y rhagwelir y bydd ar gael yn yr hydref.

**Materion sy'n dod i'r amlwg**

Y llynedd daeth nifer o feysydd cyffredin i'w gwella ymhellach i'r amlwg o ganlyniad i fy asesiadau gwella ar draws y maes llywodraeth leol. Caiff canfyddiadau am gynnydd yr Awdurdod yn rhai o'r meysydd hyn eu crynhoi isod a rhoddir rhagor o fanylion ar wahân mewn diweddariadau interim lle y bo'n briodol.

Rydym wrthi'n cynnal adolygiad o ba mor dda y mae'r Awdurdod yn defnyddio TGCh (Technoleg a Gwybodaeth) i'w helpu i wella. Byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth mewn diweddariad interim a hefyd yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Rydym yn bwriadu cynnal adolygiad byr o sut y mae gweithgareddau rheoli pobl yn cefnogi gwelliant yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

**Mae gan yr Awdurdod ddull cadarn o nodi'r hyn y mae angen iddo ei wneud i ymdopi o fewn y cyfyngiadau ariannol hysbys a bydd mewn sefyllfa well i fynd i'r afael â'i heriau ariannol ar ôl iddo ddatblygu'r trefniadau cynllunio ariannol tymor canolig ymhellach.**

Er nad oes gan yr Awdurdod gynllun ariannol tymor canolig ffurfiol roedd ganddo drefniadau ar waith i ragweld y gofynion cyllidebol ar gyfer y cyfnod o dair blynedd sy'n dechrau yn 2011-12. Mae'r Awdurdod yn cydnabod yr angen i ddatblygu trefniadau cynllunio tymor hwy, sy'n fwy ffurfiol. Mae'r Gweithgor Lleihau Risg yn datblygu strategaeth ariannol tymor canolig y mae'n gobeithio ei chyflwyno i'r Awdurdod Tân i'w mabwysiadu yn hydref 2011.

**Cynigion pellach ar gyfer gwella/argymhellion**

Nid yw'r llythyr hwn yn awgrymu unrhyw gynigion newydd ar gyfer gwella. Byddwn yn parhau i fonitro a chyflwyno adroddiadau ar gynnydd yr Awdurdod wrth weithredu'r cynigion a nodwyd yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol diwethaf.

**Diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen**

Bydd tîm yr Asesiad Gwella yn sicrhau bod yr Awdurdod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau manwl ar gyfer cyflwyno'r Adroddiad Gwella Blynyddol nesaf. Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd yn rhoi rhagor o fanylion am sut rydym yn bwriadu targedu adnoddau yn ystod yr asesiad eleni ac yn benodol sut y byddwn yn ychwanegu gwerth

drwy ganolbwyntio ar feysydd neu wasanaethau a nodwyd ar y cyd. Yn ystod y flwyddyn interim hon, rydym yn bwriadu hwyluso gweithdy i helpu'r Awdurdod i ddatblygu ei ddull o fesur ei gynnydd wrth gyflawni ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13. Mae'n debygol y bydd rhai newidiadau deddfwriaethol i'r broses gynllunio bresennol ar gyfer lleihau risgiau, a phan gyhoeddir y newidiadau, byddwn yn ceisio cefnogi'r Awdurdod drwy gynnal adolygiad o'r trefniadau i ymgysylltu â'r cyhoedd. Rydym hefyd yn bwriadu cynnal adolygiad byr o sut y mae gweithgareddau rheoli pobl yn cefnogi gwelliant yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn ystyried fy ymateb i'r ymgynghoriad ar fy nghynigion ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2011-12. Byddaf hefyd yn gofyn i Dîm yr Asesiad Gwella ystyried faint y gallwn ddibynnu ar y prosesau hunanasesu (gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Adroddiad Asesiad Cymheiriaid Blynyddol). Byddaf yn gwneud sylwadau ar y mater hwn yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Awdurdod am y ffordd y mae wedi helpu i hwyluso ein gwaith a gobeithiaf weld trefniadau hyd yn oed mwy effeithiol ac effeithlon yn datblygu dros amser. Rwyf yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu lefelau priodol o sicrwydd cyhoeddus gan eich helpu ar yr un pryd i liniaru'r risgiau anochel i wasanaethau ac atebolrwydd sy'n deillio o leihad mewn adnoddau a newidiadau o ganlyniad i hynny.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

Cc i: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Cynghorydd Frobisher, Cadeirydd, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Lisa Williams, Swyddog Arweiniol yr Asesiad Gwella, Swyddfa Archwilio Cymru

Jackie Joyce, Cydgysylltydd yr Asesiad Gwella, Swyddfa Archwilio Cymru

## Atodiad 1

### Gwybodaeth ychwanegol am y cynnydd ar y cynigion a wnaed yn Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol Gorffennaf 2010

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| **1.** Mynd i'r afael â'r ffaith bod y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio o bosibl yn dyblygu rolau wrth fonitro gwybodaeth am berfformiad, er mwyn osgoi unrhyw ddryswch neu ddyblygu diangen. | Rheolir gwaith y Pwyllgor Archwilio a'r Panel Gweithredol gan y Clerc a Swyddog Cyswllt yr Aelodau er mwyn sicrhau nad oes unrhyw orgyffwrdd na dyblygu.<br>Ni ddatgelodd ein hadolygiad o agenda'r Panel Gweithredol ac agenda'r Pwyllgor Archwilio unrhyw ddyblygu na gorgyffwrdd.<br>Roedd swyddogion ac aelodau a holwyd gennym o'r farn bod y trefniadau'n gweithio'n dda ac nad oedd unrhyw ddyblygu na gorgyffwrdd.<br>Awgrymwn y dylai'r Awdurdod Tân adolygu a diweddaru cylch gorchwyl y ddau bwyllgor hyn er mwyn adlewyrchu eu rolau mewn perthynas â Mesur Llywodraeth Leol 2009. |
| **2.** Sicrhau bod yr ystod gyfredol o feddalwedd cyflwyno adroddiadau yn arwain at broses gwneud penderfyniadau gadarn yn y tymor canolig i'r hirdymor. | Gwnaed cynnydd i ehangu ystod y data sydd ar gael i reolwyr drwy ddatblygu trefniadau cofnodi o'r systemau RMS ac IRS. Gwneir defnydd cynyddol o'r data drwy'r sefydliad i helpu i wneud penderfyniadau. Ar hyn o bryd rydym yn adolygu'r trefniadau rheoli gwybodaeth fel rhan o astudiaeth thema gan Swyddfa Archwilio Cymru, a byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth am hyn yn ein Hasesiad Gwella Blynyddol yn ddiweddarach yn y flwyddyn.<br>Nid oes unrhyw gynlluniau ar y gweill ar hyn o bryd i ddatblygu'r defnydd o system Ffynnon ymhellach. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
| --- | --- |
| **3.** Adolygu pa brosesau busnes a fydd o'r cymorth mwyaf wrth gyflawni'r prosiectau arfaethedig yn llwyddiannus. | Dros y flwyddyn ddiwethaf bu'r Awdurdod yn ystyried y prosesau sydd eu hangen i gyflawni'r prosiectau arfaethedig yn llwyddiannus. Mae wedi dwyn ynghyd nifer o adolygiadau sydd wedi ystyried trefniadau o ran sicrhau digon o swyddogion, trefniadau hyfforddiant ac argymhellion o adolygiadau allanol (megis Adroddiad HSE) a rhoddodd broses ailstrwythuro ar waith ym mis Ebrill 2011. Cynhaliwyd y gwaith ailstrwythuro i gyflawni arbedion ariannol yn ogystal â chreu gwell trefniadau cyflenwi a darparu drwy adroddiadau ac atebolrwydd cliriach. Mae'n rhy gynnar i ddweud a yw wedi cyflawni ei amcan a byddwn yn parhau i wneud gwaith dilynol yn y dyfodol ar sut y mae'r newidiadau yn effeithio ar brosesau darparu gwasanaethau.<br>Mae adolygiad o brosesau gweinyddu yn mynd rhagddo er mwyn adolygu'r ffordd orau o gefnogi'r strwythur diwygiedig.<br>Cyflwynwyd templedi Cynllunio Busnes newydd a phrosesau adolygu cysylltiedig ar gyfer 2011-12 i atgyfnerthu atebolrwydd a sicrhau y cyflawnir camau gweithredu. Mae'r Prif Swyddogion yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â'r rheolwyr prosiect enwebedig i fonitro cynnydd o ran cyflawni camau gweithredu'r Cynlluniau Busnes.<br>Nid yw trefniadau cofnodi gwybodaeth am berfformiad wedi'u strwythuro i adrodd ar gynnydd o ran cyflawni'r Amcanion Gwella, ond mae cynlluniau ar y gweill i adolygu a chadarnhau'r mesurau i gefnogi Amcanion Gwella 2011-12 ynghyd â'r trefniadau monitro erbyn mis Medi 2011.<br>Byddwn yn parhau i wneud gwaith dilynol yn y dyfodol ar sut y mae'r newidiadau yn effeithio ar brosesau darparu gwasanaethau. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| **4.** Llunio cynllun tymor canolig i sicrhau cytundeb ar gyfeiriad polisi cyffredinol a'r adnoddau sy'n ofynnol i'w gyflawni. | Nid oes gan yr Awdurdod gynllun ariannol tymor canolig ffurfiol ond roedd ganddo drefniadau ar waith i bennu ei gyllideb ar gyfer 2011-12 a hefyd i ragweld y gyllideb am y ddwy flynedd ganlynol.<br>Sefydlwyd Gweithgor Cyllideb i ystyried yr holl opsiynau o ran ariannu a gwasanaethau er mwyn cau'r bwlch ariannu. Lluniwyd llyfr Opsiynau ar gyfer Lleihau'r Gyllideb a nododd feysydd lle y gellid gwneud arbedion.<br>Mae'r Awdurdod yn cydnabod yr angen i ddatblygu trefniadau cynllunio tymor hwy, sy'n fwy ffurfiol. Bu'r Gweithgor Lleihau Risg yn gweithio i ddatblygu strategaeth ariannol tymor canolig ac mae'n gobeithio ei chyflwyno i'r Awdurdod Tân ei mabwysiadu yn hydref 2011.<br>Byddwn yn parhau i fonitro a chyflwyno adroddiadau ar gynnydd yr Awdurdod wrth ddatblygu ei ddull cynllunio ariannol tymor canolig. |